




I ba raddau mae cefnogaeth darllen adref yn effeithio ar fedrau darllen disgyblion?

Prosiect Ymchwil PYPC Ysgol Pennant 2024-25



Mae Totaj a Mehmeti (2024) yn honni bod nifer o ffactorau cymhleth yn effeithio perfformiad darllen, ond un o'r rhai mwyaf pwysig yw hybu **amgylchedd ddarllen positif**.




Yn ei astudiaeth ymchwil, mae Cubillos (2023) wedi gweld fod cymhelliant plant i ddarllen yn cydberthyn yn sylweddol â chymhelliant darllen rhieni, a bod nifer o lyfrau sydd gan y teulu adref hefyd yn cael effaith gadarnhaol a sylweddol ar gymhelliant plant i ddarllen.

Mae Pelletier *et al.* (2022) yn nodi fod y cyfnod oedran ym mlynnyddoedd olaf ysgol gynradd yn gyfnod ble mae llawer o ddysgwyr yn dangos llai o gymhelliad darllen a 'receiving support in reading from various sources is an important factor that could help prevent this decline' (t. 22).





Trosolwg o'r ymchwiliad





1. Holiaduron dysgwyr a rhieni
2. Cynllunio ymyriad
3. Holiaduron a chanlyniadau profion
4. Gwerthuso effaith

Holiaduron dysgwyr



Ydych chi'n darllen adref?





Ydych chi'n darllen i'ch rhieni?



Ydych chi'n gweld eich rhieni yn darllen?




Ydych chi'n defnyddio'r llyfrgell?



Holiaduron rhieni

Person sv'n cwblhau'r holiadur:

● Gwryw / Male	1
● Benyw / Female	29




Mae hyn yn codi cwestiwn i ni fel ysgol:

Sut y medrwn ni hybu dynion i gymryd rhan fwy gweithredol yn addysg eu plant?


Ydych chi'n darllen gyda'ch plentyn?

Na /No	1
O dro i dro /Sometimes	10
Tua tair gwaith yr wythnos / About three times a week	9
Yn ddyddiol / Daily	10




Ydy eich plentyn yn eich gweld chi'n darllen?

Na / No	4
O dro i dro / Sometimes	16
Tua tair gwaith yr wythnos / About three times a week	4
Yn ddyddiol /Daily	6




Ydych chi'n darllen gyda'ch plentyn?

Na /No	1
O dro i dro /Sometimes	10
Tua tair gwaith yr wythnos / About three times a week	9
Yn ddyddiol / Daily	10



Ydy eich plentyn yn eich gweld chi'n darllen?

Na / No	4
O dro i dro / Sometimes	16
Tua tair gwaith yr wythnos / About three times a week	4
Yn ddyddiol /Daily	6



Ydech chi yn ymwybodol bod darllen efo/i'ch plentyn yn rheolaidd yn rhoi dwy flynedd o fantais addysgiadol iddyn nhw?

● Ydw / Yes	13
● Na / No	17





Ymyriad

Noson hybu darllen i rieni

Noson wybodaeth am ddarllen i rieni er mwyn rhannu gwybodaeth, strategaethau ac adnoddau yn ogystal â chael trafodaeth ynglŷn â'r prosiect ymchwil.

Gweithgareddau hybu darllen yn yr ysgol

Cyfarfodydd staff a chyfarfodydd cyngor ysgol er mwyn rhannu syniadau sut i hybu darllen yn yr ysgol. Rhai syniadau oedd diwrnod cyfnewid llyfrau, gweithgareddau diwrnod y llyfr a dysgwyr yn rhannu adolygiadau o'u hoff lyfrau.


Yn anffodus **nifer bach o rieni** a ddaeth i'r noson ddarllen. Roedd y noson yn cynnwys rhannu canlyniadau holiaduron, ystadegau cenedlaethol, dyfyniadau, clipiau fideo, strategaethau ac adnoddau digidol i hybu darllen. Cafwyd hefyd drafodaeth ymysg y rhieni, roeddent yn trafod beth sy'n gweithio gyda'u plentyn nhw ac awgrymiadau o lyfrau gwahanol. Roedd rhai rhieni yn poeni nad oeddent yn darllen digon o lyfrau Cymraeg gyda'u plentyn gan nad oeddent yn siarad Cymraeg eu hunain. Doedden nhw ddim yn deall fod darllen i'r plant a darllen unrhyw fath o lyfrau yn helpu magu **hyder a mwynhad** o ddarllen.

Y diwrnod canlynol daeth un o'r dysgwyr hyn i mewn i'r ysgol mor gyffrous i rannu ei lyfr jôcs newydd gyda'r dosbarth! Yn dilyn y noson ddarllen roedd rhai o'r rhieni wedi cael trafodaeth bellach ynglŷn â threfnu **clwb darllen** anffurfiol i rieni a'u plant ble bydd modd trafod a rhannu llyfrau.



Roedd y dysgwyr wedi mwynhau gweithgareddau **diwrnod y llyfr**. Cawson gyfle i wisgo eu pajamas, cyfnewid llyfrau a chwblhau gweithgareddau darllen.



Roedd y dysgwyr wedi recordio a rhannu adolygiadau o'u **hoff lyfrau**. Mae modd gwyllo rhain yn yr ardal ddarllen yn y dosbarth.



Roedd y dysgwyr wedi creu posteri i hybu eu hoff lyfr mewn **cystadleuaeth ysgol**. Y gwobr oedd £8 gwerth o lyfrau. Cafwyd un enillydd o bob dosbarth



Canlyniadau profion darllen

Profion darllen cenedlaethol

Sgôr safonedig ar sail oedran

Cyfartaledd sgôr safonedig ar sail oedran
dysgwyr gyda rhieni na ddaeth i'r noson ddarllen:

110

Cyfartaledd sgôr safonedig ar sail oedran
dysgwyr gyda rhieni a ddaeth i'r noson ddarllen:

120

Canlyniadau profion darllen

Profion darllen cenedlaethol

Sgôr safonedig ar sail oedran

Cyfartaledd sgôr safonedig ar sail oedran

dysgwyr sydd **ddim** yn darllen adref yn rheolaidd:

Bl 2: 108

Bl 3: 95

Bl 4: 106

Bl 5: 88

Bl 6: 92

CYFARTALEDD YSGOL: 98

Cyfartaledd sgôr safonedig ar sail oedran

dysgwyr sydd **yn** darllen adref yn rheolaidd:

Bl 2: 120

Bl 3: 118

Bl 4: 113

Bl 5: 104

Bl 6: 119

CYFARTALEDD YSGOL: 115



Prif ganfyddiadau

- Mae holl ddysgwyr yr ysgol wedi ymateb yn bositif i weithgareddau darllen yr ysgol ac mae'r cyngorau wedi bod yn allweddol yn cynllunio a threfnu gweithgareddau e.e. Diwrnod cyfnewid llyfrau ac awdur Cymraeg yn ymweld â'r ysgol.
 - Mae ymateb rieni i'r noson ddarllen wedi bod yn gadarnhaol. Mae'r rhai a fynychodd wedi diolch am y cyngor a'r syniadau a rannwyd.
 - Mae dysgwyr sydd yn darllen adref yn rheolaidd a chael cefnogaeth rhieni yn sgorio'n uwch mewn profion darllen cenedlaethol.
 - Mae cefnogaeth darllen adref yn effeithio'n gadarnhaol ar fedrau darllen dysgwyr.
-

Beth weithiodd yn dda?

Ymateb bositif gan rieni a ddaeth i'r noson ddarllen.

Ymateb bositif gan y dysgwyr tuag at y gweithgareddau darllen.

Beth oedd yn her?

Ymrwymiad rhieni.

Amser i staff gyd-weithio ar y prosiect.



Gwerthuso effaith ymholi

- Holiaduron wedi codi ymwybyddiaeth fod darllen efo'u plant yn rheolaidd yn rhoi dwy flynedd o fantias addysgiadol iddyn nhw.
 - Rhieni a ddaeth i'r noson ddarllen wedi ymateb yn bositif iawn.
 - Dysgwyr yn dangos agwedd bositif tuag at weithgareddau darllen gwahanol.
 - Dysgwyr wedi mwynhau cymryd cyfrifoldeb dros drefnu gweithgareddau darllen.
-



Y camau nesaf

- Datblygu strategaethau darllen yn yr ysgol.
 - Cynnal noswaith ddarllen arall, ond ystyried sut i annog mwy o rieni i fynychu.
 - Ystyried sut i annog tadau i gymryd rôl mwy gweithredol yn addysg eu plant.
 - Datblygu rôl llyfrgellwyr yn yr ysgol.
 - Parhau i ymchwilio ac ymholi.
 - Annog cyd-weithwyr i gynnal prosiect ymchwil eu hunain.
-

Llenyddiaeth

- Cubillos, M. (2023) 'A Chip Off the Old Block: Do Reading-Motivated Parents Raise Reading-Motivated Children?', *Reading Research Quarterly* (John Wiley & Sons, Inc.), 58(4). doi:10.1002/rrq.504.
- Jan Burkins and Kim Yaris (2014) *Reading Wellness : Lessons in Independence and Proficiency*. Portland, Maine: Routledge. Available at: <https://research.ebsco.com/linkprocessor/plink?id=a9b3e814-cc8a-3a3e-b51a-afd3115b542e> (Accessed: 8 April 2025).
- Hu, J. et al. (2024) 'Gender differences in reading medium, time, and text types: Patterns of student reading habits and the relation to reading performance', *Reading & Writing*, 37(8), t. 22. doi:10.1007/s11145-023-10446-y.
- Llywodraeth Cymru (2020), Cwricwlwm i Gymru, leithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu, ar gael ar: <https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/ieithoedd-llythrennedd-a-chyfathrebu/datganiadau-o-r-hyn-sy-n-bwysig/> Cyrchwyd ar Ebrill 8fed, 2025.
- Llywodraeth Cymru (2022), Cyflawniad disgyblion 15 mlwydd oed (Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr) PISA adroddiad cenedlaethol: 2022. Ar gael ar: [Cyflawniad disgyblion 15 mlwydd oed \(Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr\) PISA adroddiad cenedlaethol: 2022 | LLYW.CYMRU](#) Cyrchwyd ar Ebrill 8fed, 2025
- OECD. (2011). "Reading for enjoyment", in PISA 2009 at a Glance. Paris.: OECD Publishing. T. 66
- Pelletier, D. et al. (2022) 'Teachers, Parents and Peers Support in Reading Predicting Changes in Reading Motivation among Fourth to Sixth Graders: A Systematic Literature Review', *Reading Psychology*, 43(5/6). doi:10.1080/02702711.2022.2106332.
- Scholes, L., Spina, N. and Comber, B. (2021) 'Disrupting the "boys don't read" discourse: Primary school boys who love reading fiction', *British Educational Research Journal*, 47(1), p.15 . doi:10.1002/berj.3685.
- Totaj, G. and Mehmeti, F. (2024) 'Exploring the relationships among reading engagement, enjoyment, perceived competence, perceived difficulties and reading achievement', *Journal of Contemporary Educational Studies / Sodobna Pedagogika*, 75(2), pp. 177–194. Available at: <https://research.ebsco.com/linkprocessor/plink?id=51e0c899-976d-3480-8b92-ac724dd70e07> (Accessed: 8 April 2025).